

adnabod awdur

A N G H A R A D T O M O S



WN I DDIM YN IAWN lle mae Gwlad y Rwla, ond y cip cyntaf gefais i arni oedd mewn berfa mewn coedwig. Pan edrychais yn y ferfa, roedd gwrach fach o'r enw Rwdlan ynddi. Gwrach ddireidus oedd hi, ac yn debyg i'm chwaer fach i. Wedi i mi ei dilyn, gwelais yr ogof yr oedd yn byw ynddi, a'r wrach oedd yn gofalu am Tan Domen, Rala Rwdins a Mursen y gath.

Digwyddodd hynny ym 1983, ac ers hynny mi gaf fynd a dod i Wlad y Rwla fel y mynnaf. I'm helpu i fynd yno, mae gen i ambarél las a lluniau cymylau arni. Wrth eistedd dan hon, gallaf ddychmygu sut mae Rala Rwdins yn teimlo wrth deithio drwy'r awyr. Meddyliais y carai plant rannu'r byd hwn efo mi, a bellach mae dros ddwsin o lyfrau yng nghyfres Rwdlan.

Gall unrhyw un greu byd dychmygol fel hyn – yr unig bethau ydach chi eisiau ydi pensel a phapur. Y peth anoddaf yw meddwl am gymeriad a chael enw iddo fo neu hi. Unwaith yr ydych wedi gwneud hyn, mae'r allwedd i antur yn eich llaw. Gall fod yn stori ddigri, stori drist, stori arswyd – chi gaiff benderfynu. Yn aml, gallaf weld y cyfan yn digwydd fel ffilm yn fy mhen, a cheisiaf gofnodi'r cyfan ar bapur.

Y peth da efo meddwl am storïau yw y gallwch ei wneud yn unrhyw le – wrth aros am fws, wrth fynd am dro, wrth fwyta'ch cinio, wrth chwarae, a chyn cysgu. Edrychwch o'ch cwmpas ac mae byd cyfan o syniadau ar eich cyfer. I ble mae'r bws hwnnw'n mynd? Pwy sydd arno? Pam fod y plentyn yn crio – ydi o wedi colli rhywbeth? Beth yw eich ofn mwyaf? Beth yw'r teimlad gorau yn y byd? – Rhowch y cyfan ar bapur. Yn fy mhen y byddaf yn creu storïau, ond fy hoff le i sgwennu ynddo ydi mewn cwt sydd gen i yn yr ardd. Mae o'n lle tawel iawn, ac weithiau wrth godi 'mhen, caf gip ar fronfraith neu robin goch yn syllu arna i.

Pan oedd fy mhedair chwaer a minnau'n dod adre o'r ysgol (ers talwm iawn, iawn!), roedd pob un ohonom am y gorau i gael dweud hanes y diwrnod wrth Mam. Yr un oedd yn dweud y stori orau oedd yn cael y gwrandawriad gorau. Dyna sut y dechreuais i ddweud stori . . .

Dyddiad
geni: 19
Gorffennaf
1958

Magwyd:
Llanwnda, ger
Caernarfon

Cartref
presennol:
Penygroes,
Dyffryn
Nantlle

Gwaith:
Sgwennu ac
ymgyrchu

Hoff
bethau: Teithio
a threulio
amser yn yr
ardd

Cas bethau:
Bwlis a
marsipan

Lluniau/Martin Roberts

LLYFRAU I BLANT GAN ANGHARAD TOMOS

Cyfres Rwdlan

Rala Rwdins £1.95
Ceridwen £1.95
Diffodd yr Haul
£1.95
Y Dewin Dwl £1.95
Llipryn Llwyd *
£1.95
Mali Meipen *
£2.95
Diwrnod Golchi *
£1.95
Strempen * £2.95
Jam Poeth * £1.95
Yn Ddistaw Bach *
£1.95
Corwynt * £1.95
Penbwl Hapus *
£2.95
Cosyn # £2.95
Lolfa

*ar gael fel casét
£4.49
ar gael fel llyfr
mawr £14.95

Llyfr Llanast – llyfr lliwio £1.95
Llyfr Smonach – llyfr lliwio a phosau
£1.45
Stwnsh
Rwdlan – llyfr
coginio £1.95
Parti Cwmwl
– llyfr coginio
£1.95




Sothach a Sglyfath
£4.95
Lolfa
Guto Col Tar *
Guto Col Tar yn y
Garej *
Sain £1.95, £4.49
llyfr a chasét

Addasiadau

Y Bugail Blin
Cyhoeddiadau'r Gair £4.50

Llyfrau Fi Hefyd

Dydw i
Ddim
Eisiau
Un Bach
Ydwyf
Ffwrdd â thi,
Frawd Bach
Hei, Rwy'n
Gweld
Ar y Brig
Da, Gwell, Gorau
Dim Angen Cwch
Hau'r Had
Helpu Duw yn Hapus



I Mewn i'r Arch â Nhw!
Nadolig Heb Goeden
Paid Siglo'r Cwch
Paid â Stopio Llenwi'r
Potiau
Rhywun i'w Garu
Y Wal na Ddaeth i Lawr
Yn Ffau'r Llewod
Cyhoeddiadau'r Gair
£1.25 yr un